# TAI YN GYNTAF:
## CANLLAW AR GYFER LANDLORDIAID PRS

**Mae'r ddogfen hon yn gweithredu fel canllaw sylfaenol i Tai yn Gyntaf ar gyfer Landlordiaid yn y Sector Rhentu Preifat (PRS) sydd â diddordeb yn y dull hwn, ac a fyddai o bosibl yn ystyried ymuno â phrosiect Tai yn Gyntaf. Efallai hefyd y byddai darllenwyr yn dymuno ystyried ail ddogfen, sy'n rhoi sylw i'r modd y gallai cynllun prydlesu gael ei ddefnyddio neu ei ddatblygu'n lleol.**

### BETH YW TAI YN GYNTAF?

- Tai yn Gyntaf: model sydd wedi ennill clod yn rhyngwladol ac sy'n gweithio i roi terfyn ar ddigartrefedd
- Tai yn Gyntaf: mae'n darparu tai a chymorth dwys i bobl anghenus
- Tai yn Gyntaf: mae arno angen landlordiaid sy'n ymrwymo i ddarparu eiddo

Mae Tai yn Gyntaf yn ddull unigryw o weithio i'n helpu i fynd i'r afael â digartrefedd. Dengys tystiolaeth fod y dull hwn yn llwyddiannus wrth estyn cymorth i bobl a chanddynt hanes o ddigartrefedd sy'n ei ailadrodd ei hun, ac sydd wedi profi lefelau sylweddol o drawma, gan eu symud i gartrefi sefydlog.

Mae Tai yn Gyntaf yn cynnig tai fforddiadwy, hirdymor, cyn gynted ag y bo modd ar gyfer unigolion sy'n profi digartrefedd wedi ei wreiddio'n ddwfn, ac yna'n darparu cymorth dwys, cofleidiol a chysylltiadau i gymorth cymunedol er mwyn rhoi'r cyfle gorau posibl i unigolion gynnal eu tenantiaethau'n llwyddiannus a'u hatal rhag mynd yn ôl ar y stryd.

Mae tystiolaeth ryngwladol wedi profi pa mor effeithiol y gall Tai yn Gyntaf fod. Trwy weithredu Tai yn Gyntaf yng Nghymru, mae gennym gyfle go iawn i helpu pobl sydd wedi treulio blynyddoedd yn byw ar y stryd trwy eu symud i gartref sefydlog lle gallant fyw bywydau llawn a hapus. Mae Tai yn Gyntaf yn rhoi rheolaeth, dewis, hawliau a chyfrifoldebau i bobl sy'n ddigartref.

## EGWYDDORION TAI YN GYNTAF

Er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu'n driw i'r dull Tai yn Gyntaf, crëwyd set o egwyddorion. Yn eu hanfod, mae'r egwyddorion hyn yn sicrhau bod y model yn llwyddiannus, a bod pobl yn cael y cymorth mae arnynt ei angen i gynnal eu tenantiaeth. Mae crynodeb llawn o'r egwyddorion hyn i'w gweld yn y ddogfen Egwyddorion Tai yn Gyntaf.

1. Mae gan bobl hawl i gartref sy'n fforddiadwy, diogel, digonol ac mewn cyflwr addas i fyw ynddo.
2. Mae tai a chymorth yn cael eu gwahanu oddi wrth ei gilydd.
3. Mae'r gwasanaeth wedi'i dargedu at yr unigolion hynny sy'n aml yn methu cynnal llety rheolaidd mewn hostel a/neu pobl sy'n cysgu ar y stryd a/neu'n cael mynediad at lety argyfwng dros nos.
4. Darperir cymorth hyblyg cyn hired ag y bo angen amdano.
5. Defnyddir dull o ymgysylltu gweithredol.
6. Mae unigolion yn cael dewis a rheolaeth.
7. Defnyddir dull o weithio sy'n lleihau niwed.
8. Darperir y gwasanaeth mewn modd sy'n seicolegol-wybodus, trawma-wybodus a rhywedd-wybodus, ac sy'n sensitif ac yn ymwybodol o nodweddion gwarchodedig.
9. Seilir y gwasanaeth ar gryfderau, nodau a gobeithion pobl – bydd y darparwyr cymorth wedi ymrwymo i gadw at lwyth gwaith bychan.
10. O'r cychwyn cyntaf, mae'r amrediad ehangaf posibl o wasanaethau cymorth yn chwarae rhan, fel bod modd i unigolion gael mynediad atynt os oes arnynt eu hangen neu'n dymuno eu cael.

## PAM Y DYLAI LANDLORDIAID PREIFAT DDOD YN RHAN O'R CYNLLUN?

- Profwyd fod Tai yn Gyntaf yn gallu newid bywydau; bydd tenantiaid yn derbyn cymorth dwys, wedi ei dargedu, i'w helpu i gynnal eu tenantiaeth a thrawsnewid eu bywydau
- Bydd landlordiaid preifat sy'n gweithio gyda Tai yn Gyntaf yn chwarae rhan allweddol yn y dasg o symud pobl oddi ar y stryd a rhoi terfyn ar ddigartrefedd
- Os bydd landlordiaid yn ymuno â Tai yn Gyntaf drwy gyfrwng Cynllun Prydlesu, fel arfer bydd incwm rhentu'n cael ei warantu a bydd hwnnw'n debygol o fod ar lefelau Lwfansau Tai Lleol (LHA) am gyfnod o amser.

Mae'r diffyg tai cymdeithasol sydd ar gael yng Nghymru – ac, yn wir, yng ngweddill y Deyrnas Gyfunol – yn golygu ei bod yn holl bwysig i ystyried gweithio mewn modd cydweithredol gyda'r sector rhentu preifat. Rydym yn croesawu creu partneriaethau a pherthynas waith agosach gyda landlordiaid yn y sector preifat ledled Cymru, fel bod modd i ni i gyd chwarae'n rhan i roi terfyn ar ddigartrefedd.

Mae gweithredu Tai yn Gyntaf ar raddfa eang yn cynnig cyfle prin i landlordiaid PRS chwarae eu rhan yn y gwaith o gymhwyso dull sydd wedi ei werthuso a'i dystiolaethu'n rhyngwladol i roi terfyn ar ddigartrefedd yng Nghymru.

Mae Tai yn Gyntaf nid yn unig yn ddull effeithiol o helpu unigolion i bontio o gysgu allan i gynnal tenantiaethau, mae yna hefyd achos cryf yn gymdeithasol ac o safbwynt busnes dros gael landlordiaid i fod yn rhan o'r cynllun Tai yn Gyntaf.

Oherwydd y cymorth dwys y mae gan denantiaid fynediad ato 24/7, mae'n llawer haws iddynt gynnal eu tenantiaethau dros gyfnodau hir o amser. Mae tystiolaeth ryngwladol wedi gwneud hyn yn glir, gydag amrywiaeth o astudiaethau'n dangos bod 80–97% o holl gleientiaid Tai yn Gyntaf yn llwyddo i gadw tenantiaeth. Yn yr un modd, ymdrinnir ag unrhyw broblemau gyda'r tenant trwy wneud defnydd o'r cymorth dwys hwn, a ddarperir trwy fewnbwn gan nifer o sefydliadau ac asiantaethau.

## TAI YN GYNTAF DRWY GYNLLUNIAU PRYDLESU

Byddai bod yn rhan o gynllun prydlesu'n golygu na fyddai disgwyl i landlordiaid ymwneud â materion rheoli tenantiaethau o ddydd i ddydd. Mae cynllun prydlesu'n cynnig llawer o fanteision, a byddem yn argymell i chi fod yn rhan ohono – ceir disgrifiad o fodel o gynllun prydlesu mewn dogfen y dylid ei darllen ar y cyd â hon.

Mae Llywodraeth Cymru'n rhedeg cynlluniau braenaru ar brydlesu mewn rhannau o Gymru; nod y treialu hwn yw darparu model graddadwy a fydd yn arwain at gynllun cenedlaethol sy'n darparu llawer mwy o dai fforddiadwy, o ansawdd gwell, gyda mwy o sicrwydd llety ledled Cymru.

Mae'r cysyniad o gynllun prydlesu, a'r defnydd ohono, fel yr amlinellir yn y ddogfen hon, yn cael ei ategu gan Cymorth Cymru, Rhwydwaith Tai yn Gyntaf, a Chymdeithas Genedlaethol Landlordiaid Preswyl (NRLA). Yn syml, trwy ymuno â chynllun prydlesu – naill ai'n lleol neu drwy fenter Llywodraeth Cymru – ni fyddai disgwyl i'r landlordiaid eu hunain fod yn rhan o'r gwaith o reoli eu heiddo Tai yn Gyntaf.

## CYMORTH SYDD AR GAEL I LANDLORDIAID

Wrth ddod yn rhan o Tai yn Gyntaf, byddwch yn cydweithio gyda sefydliadau darparu cymorth sy'n brofiadol ac wedi derbyn hyfforddiant, a chanddynt staff sy'n gweithio'n galed i gefnogi eich tenantiaid gyda chymorth dwys heb unrhyw gyfyngiadau amser yn perthyn iddo.

Mae union natur Tai yn Gyntaf yn golygu bod darpar denantiaid yn debygol o fod â hanes o drawma sylweddol, profiad o ddigartrefedd, a phroblemau eraill. Dyna pam mae yna gymorth eang ar gael i denantiaid. Mae Tai yn Gyntaf yn gweithredu heb y rhwystrau arferol, megis gosod cyfyngiadau amser a bod ar gael ar adegau penodol o'r dydd yn unig. Mae'r cymorth hwn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, gysylltiad therapiwtig hyblyg gyda gweithwyr cymorth, mwyhau incwm, cefnogaeth gyda phroblemau iechyd, a chymryd rhan mewn gweithgareddau dargyfeirio. Yn gyffredinol, estynnir y gefnogaeth hon i landlordiaid sy'n dewis gosod eu heiddo'n uniongyrchol i denantiaid (h.y. y rhai hynny nad ydynt yn gosod eu heiddo drwy gynllun prydlesu).

Mae ymarferwyr Tai yn Gyntaf wedi pwysleisio pwysigrwydd cynnal perthynas dda gyda landlordiaid yn y sector preifat sy'n ymrwymo i gynnig eu heiddo i'r gwasanaeth/au.

Cyfathrebu da yw'r allwedd i denantiaeth lwyddiannus gyda Tai yn Gyntaf, ac mae hyn wedi gweithio'n ymarferol oherwydd bod timau Tai yn Gyntaf wedi cymryd cwestiynau a phryderon y landlordiaid o ddifrif, gan ymateb yn gyflym ac yn ôl yr angen.

Rhaid nodi mai pwrpas y darparwr cymorth yw sicrhau bod y tenant yn teimlo ei fod yn cael cefnogaeth, ac yn deall nad yw cael cynnig tŷ yn dibynnu arnynt yn ymgysylltu â chymorth. Wedi dweud hynny, pan maent yn gweithio gyda thenantiaid Tai yn Gyntaf, bydd timau cymorth yn aml yn sicrhau eu bod ar gael i landlordiaid er mwyn sicrhau bod popeth yn rhedeg yn esmwyth.

Maent ar gael fel pwynt cyswllt ar gyfer landlordiaid a chanddynt, efallai, gwestiynau, pryderon a hyd yn oed broblemau posibl gyda'r denantiaeth. Trwy sicrhau eu bod yn hygyrch, gall ymarferwyr gyfeirio tenantiaid at faterion arbennig a chynnig cymorth, gan eiriol drostynt a gweithio'n agos gyda hwy i oresgyn unrhyw rwystrau posibl. Fel arfer, mae yna Swyddogion Cyswllt Landlordiaid yn gweithio'n benodol o fewn y gwasanaeth Tai yn Gyntaf i sicrhau bod landlordiaid yn cael y gefnogaeth mae arnynt ei hangen.

## YR EFFAITH MAE LANDLORDIAID PREIFAT SY'N CYSYLLTU Â'R GWASANAETH YN EI GAEL AR TAI YN GYNTAF

Trwy gefnogi Tai yn Gyntaf, a darparu eiddo ar gyfer y gwasanaethau hyn, mae cyfle gan landlordiaid yn y sector preifat i wneud gwahaniaeth sylweddol i sefyllfa'r digartref yng Nghymru. Isod, mae rhai hanesion go iawn yn dangos y newidiadau a wnaed i fywydau pobl o ganlyniad i landlordiaid yn y sector preifat yn cynnig eu heiddo ar gyfer gwasanaethau Tai yn Gyntaf ledled Cymru. Noder: mae'r enwau a rhai manylion wedi cael eu newid i warchod hunaniaeth y bobl y sonnir amdanynt.

### ASTUDIAETH ACHOS 1 - **Darparwyd gan Dîm Tai yn Gyntaf Cyngor Caerdydd**

*'Ry'ch chi wedi fy nhynnu allan o ddrws siop a'm gwneud yn fyw unwaith eto'.*

Cyn iddo ymgysylltu â gwasanaeth Tai yn Gyntaf Cyngor Caerdydd, roedd 'Brian' wedi bod yn ddigartref ers dros 13 mlynedd. Gyda phroblemau o gwmpas caethiwed i gyffuriau, roedd ei fywyd yn troi o gwmpas cysgu allan, syrffio soffas, a llwyddo ambell dro i gael mynediad at lety mewn hostel. Yn anffodus, teimlai 'Brian' fod yr holl systemau oedd i fod i'w helpu i ddod allan o ddigartrefedd wedi ei adael i lawr, a chredai'n gryf iawn y byddai ei fywyd yn dod i ben ar y stryd – a hynny yn y dyfodol agos. Pan gyfeiriwyd ef i ddechrau at y gwasanaeth Tai yn Gyntaf, cydweithiodd y tîm yn agos gyda 'Brian' i nodi lle yr hoffai fyw. Diolch i ymrwymiad a chefnogaeth landlord preifat lleol, llwyddodd y tîm i sicrhau cartref roedd 'Brian' yn fodlon iawn ag e, a hynny yn ei ddewis o ardal.

Wrth symud ymlaen ychydig fisoedd, mae 'Brian' wedi bod yn ymgysylltu â'r gwasanaeth Tai yn Gyntaf yn ystod y chwe mis diwethaf, ac wedi llwyddo i gynnal tenantiaeth dros yr holl gyfnod hwnnw. Mae ei iechyd corfforol wedi gwella'n sylweddol, a bellach mae'n ymgysylltu o'i wirfodd â thriniaeth ar gyfer camddefnyddio sylweddau. Mae e hefyd wedi ymestyn ein orwelion yn y cyfnod hwn, gan ymaelodi mewn campfa a gwneud peth gwaith fel model! Mae'r profiad hwn hefyd wedi rhoi hyder iddo hyfforddi fel 'Mentor Cymheiriaid' i estyn cymorth i eraill sy'n ddigartref ar hyn o bryd, gyda'r nod y gallant hwythau hefyd fyw bywydau diogel a hapus. Mae'r landlord preifat a 'Brian', fel ei gilydd, yn teimlo eu bod wedi cael cefnogaeth drwy gydol y daith, ac o ganlyniad mae'r denantiaeth yn ffynnu. Mae gwaith caled ac ymroddiad y tîm, mewn partneriaeth â'r landlord preifat a 'Brian', wedi talu ar ei ganfed – dyna beth yw partneriaeth go iawn.

### ASTUDIAETH ACHOS 2 - **Darparwyd gan The Wallich, Tîm Tai yn Gyntaf Ynys Môn**

*'Doedd gen i unman i droi'*

Pan ddaeth perthynas 'Jack' i ben, doedd ganddo unman i droi. Arhosodd ei gyn-bartner yn y fflat y buont cynt yn ei rannu, tra bu 'Jack' yn crwydro'r strydoedd heb unrhyw fynediad at gymorth. Gan nad oedd ganddo unrhyw deulu na ffrindiau'n agos i droi atynt am help, ei unig ddewis oedd cysgu mewn ysgubor wag. Dyna oedd ei hanes am dros flwyddyn. Byddai'n cael cawod yn y ganolfan hamdden leol, ac am amser hir doedd neb oedd yn agos ato wedi amau bod unrhyw beth o'i le.

Ar ôl cysylltu â The Wallich, gwasanaeth Tai yn Gyntaf Ynys Môn, llwyddodd 'Jack' i symud i mewn i eiddo o'i ddewis, mewn ardal o'i ddewis, o fewn dim ond pythefnos. Ni fyddai hyn wedi bod yn bosibl heblaw am gymorth ac ymrwymiad landlordiaid preifat lleol oedd yn fodlon cydweithio â gwasanaethau yn yr ardal. Trwy waith ymroddgar ei weithwyr cymorth, ac ymrwymiad y landlord, mae 'Jack' wedi llwyddo i gynnal ei denantiaeth am y saith mlynedd ddiwethaf. Yn rhyfeddol, cynigiodd ei landlord denantiaeth eiddo mwy o faint yn ei bortffolio iddo, gan nodi bod 'Jack', yn wir, 'yn denant delfrydol'. Penderfynodd 'Jack' droi'r cynnig i lawr, gan sylweddoli beth fyddai oblygiadau ymarferol gorfod cynnal a chadw cartref mwy o faint. Bellach, mae'n parhau i fod yn hapus ac yn cael cefnogaeth, ac mae ei denantiaeth yn gryf a sefydlog.

## BETH MAE ARNOM EI ANGEN ODDI WRTHYCH CHI

### 1. Dylech fod yn fodlon i ddarparu tenantiaeth tymor hir

Nod Tai yn Gyntaf yw darparu llety sefydlog i denantiaid, ac oherwydd hynny dylai'r denantiaeth gynnig sicrwydd i'r tenant y tu hwnt i drefniant rhentu nodweddiadol am dymor byr.

### 2. Eich parodrwydd i ymgysylltu â'r darparwr cymorth, yn enwedig ar adegau pan fyddwch chi neu eich tenant ag angen cymorth yn ystod y denantiaeth

Darperir cymorth dwys i unrhyw ddarpar denant sy'n mynd i mewn i denantiaeth Tai yn Gyntaf. Fodd bynnag, mae'n bosibl y daw amser pan nad oes ar y tenant angen y cymorth mwyach. Gan nad oes cyfyngiadau amser i'r cymorth a ddarperir fel rhan o'r dull Tai yn Gyntaf, mae modd i'r tenant ail-ymgysylltu â chymorth pryd bynnag mae arnynt ei angen. Os bydd eich tenant yn dechrau cael trafferthion yn yr eiddo, dylai'r darparwr cymorth fod yn ymwybodol o hyn ac efallai y bydd angen ymgysylltu â'r landlord i gael dealltwriaeth lawn o'r sefyllfa. Gall hyn hefyd olygu ailosod cymorth os yw eich tenant yn dymuno hynny. Ni fydd disgwyl i chi, ar unrhyw adeg, ddarparu'r cymorth hwnnw eich hun. Mae'r cymorth dwys sydd ar gael i gleientiaid hefyd ar gael i chithau ac, o bosib, i'r gymuned leol o gwmpas y tenant – hynny yw, bydd modd i chi siarad â darparwr cymorth ar unrhyw adeg, os bydd angen i chi wneud hynny.

### 3. Rhaid i chi fod yn fodlon gosod eich eiddo i rai sy'n hawlio budd-daliadau

Nod Tai yn Gyntaf yw cynnig tai fforddiadwy, hirdymor, cyn gynted ag y bo modd i rai sy'n cael profiad o ddigartrefedd sydd wedi gwreiddio. Mae hyn yn golygu y bydd rhai tenantiaid yn derbyn nawdd cymdeithasol, a bydd darparwyr cymorth yn gweithio gydag unrhyw ddarpar denantiaid i sicrhau eu bod yn derbyn pob budd-dal mae ganddynt hawl iddynt. Ni ddylech osod cyfyngiadau ar eich eiddo, e.e. peidio â gosod eiddo i rai sy'n hawlio budd-daliadau. Cyn cychwyn unrhyw denantiaeth, ac er mwyn diogelu pawb sy'n rhan o'r trefniant, bydd angen i chi sicrhau nad yw eich darparwr morgais wedi gosod unrhyw gymalau yn eich cytundeb sy'n eich atal rhag gosod eiddo i rai sy'n hawlio budd-daliadau.

### 4. Dylech gydnabod y ffaith bod tai a chymorth wedi eu gwahanu yn y model hwn

Un o egwyddorion Tai yn Gyntaf yw bod tai a chymorth yn cael eu gwahanu oddi wrth ei gilydd. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu na fydd y darparwr eiddo (e.e. landlord preifat) yn cynnig cymorth uniongyrchol i'r tenant. Gyda hyn yn ei le, rydym yn dal i werthfawrogi'r ffaith y gallai landlordiaid PRS barhau i fod ag angen mynediad at gymorth wrth ymgysylltu â gwasanaeth Tai yn Gyntaf. Drwy gydol yr amser byddwch yn gysylltiedig â thimau lleol Tai yn Gyntaf yn eich ardal fel bod modd iddynt estyn cymorth helaeth i chi, y landlord.

### 5. Dylech fod yn sensitif wrth ddelio â thenantiaid Tai yn Gyntaf

Cyn iddynt ymgysylltu â gwasanaeth Tai yn Gyntaf, bydd darpar denantiaid wedi cael profiad helaeth o drawma, sawl cyfnod o gysgu ar y stryd, a phrofiad o fathau eraill o ddigartrefedd. Os, am unrhyw reswm, y bydd angen i chi siarad yn uniongyrchol â thenantiaid, rhaid i chi fod yn drawma-wybodus, yn empathetig ac yn amyneddgar. Er na fydd gan landlordiaid fynediad at wybodaeth benodol ynghylch hanes a chefndir eu cleientiaid, dylent fod yn ymwybodol o'r ffaith bod prosiectau Tai yn Gyntaf yn tueddu i weithio gyda grwpiau llywio, sy'n asesu cleientiaid. O ganlyniad, pe bai yna unrhyw faterion (goblygiadau cyfreithiol, er enghraifft) yn gysylltiedig â chleient penodol yn symud i mewn i eiddo penodol, byddai sylw wedi ei roi i'r materion hyn fel rhan o'r broses.

### 6. Dylech ystyried rhannu eich profiadau

I egluro'r achos busnes dros Tai yn Gyntaf, ynghyd â'r dystiolaeth ryngwladol swmpus sy'n arddangos effeithiolrwydd aruthrol Tai yn Gyntaf, byddai'n hynod ddefnyddiol pe bai landlordiaid PRS yn ystyried rhannu eu profiadau gyda'u cymheiriaid, a hynny drwy fforymau landlordiaid a grwpiau eraill priodol.

## CWESTIYNAU CYFFREDIN

### PA FATH O YSTYRIAETH A RODDIR I GYMDOGION FY EIDDO, A'R GYMUNED O'I GWMPAS?

Mae Tai yn Gyntaf yn tueddu i weithio gyda grwpiau llywio, yn cynnwys rhanddeiliaid sy'n trafod cleientiaid ac yn penderfynu – ar sail ystod o feini prawf – pwy sy'n addas ar gyfer derbyn cymorth. Mae amryw o asiantaethau'n cymryd rhan yn y cyfarfodydd hyn, a byddai disgwyl iddynt godi unrhyw faterion a allai godi petai rhyw gleient penodol yn symud i gymdogaeth a allai greu problemau iddynt. Byddai cefndir y cleient, a natur y gymdogaeth y byddent yn symud iddi, i gyd yn cael ei hystyried yn drwyadl gan y grŵp llywio, i sicrhau bod cyn lleied o broblemau â phosibl yn debygol o godi.

### BETH PETAI YNA BROBLEMAU GYDAG YMDDYGIAD GWRTH-GYMDEITHASOL?

Mae ymddygiad gwrth-gymdeithasol (ASB) yn bryder i unrhyw landlordiaid sy'n gosod eiddo i aelodau o'r cyhoedd. Ni ddylid tybio y bydd tenantiaid Tai yn Gyntaf yn awtomatig yn ymddwyn mewn modd gwrth-gymdeithasol o ganlyniad i gael profiad o ddigartrefedd. Fodd bynnag, rydym yn gwerthfawrogi'r ffaith ei bod yn bwysig i chi fod yn ymwybodol o fecanweithiau sydd mewn grym a allai eich helpu chi a'ch cymodogion mewn achosion o ymddygiad gwrth-gymdeithasol.

Lle bo achosion o ASB yn digwydd, bydd landlordiaid a chymdogion yn parhau i fod â mynediad at bob agwedd o adrodd yn ôl, yn union fel sy'n digwydd gydag unrhyw denant arall. Mae hyn yn golygu y gallant gysylltu â'u Hawdurdod Lleol ac â'r gwasanaethau argyfwng os yw hynny'n briodol.

Mae gan denantiaid fynediad at gymorth cyson heb gyfyngiadau amser arno, sy'n golygu bod ganddynt weithwyr cymorth wrth law i weithredu fel eiriolwyr ar eu rhan hwy a'u tenantiaeth. Mae hyn yn golygu bod elfennau cyfathrebu a deialog bob amser yn parhau'n gryf gyda landlordiaid a phartïon eraill.

### BETH PETAI'R TENANT YN YMDDANGOS EI FOD YN CAEL TRAFFERTH GYDA'R DENANTIAETH AR ÔL I GYMORTH GAEL EI LEIHAU NEU EI DYNNU'N ÔL?

Gan nad oes unrhyw derfyn amser na chyfyngiadau i'r cymorth a ddarperir fel rhan o becyn Tai yn Gyntaf, mae modd i'r tenant ail-ymgysylltu â chymorth pryd bynnag mae arnynt ei angen. Os bydd eich tenant yn dechrau cael trafferthion yn yr eiddo, disgwylir i chi gysylltu â'r darparwr cymorth perthnasol i roi gwybod iddynt. Gall hyn hefyd olygu ailddechrau cymorth os mai dyna yw dymuniad y tenant. Ni ddisgwylir i chi, ar unrhyw adeg, ddarparu'r cymorth hwnnw eich hun.

**Dysgwch fwy ar wefan Cymorth Cymru**
**E-bost: HousingFirst@cymorthcymru.org.uk**